Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

| MANAGEMENT HEADER | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr | | |
| **Awdur** | Elen Mai Nefydd | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Bwrdd Academaidd | | |
| **Gweithredu gan:** | Pennaeth Datblygu Darpariaeth Cymraeg; Cynllunio a Strategaeth, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol | | |
| **Cyfeiriad Strategaeth:** | STSPSA2223011 | | |
| **Strategaeth wedi'i Disodli:** | NA | | |
| **Fersiwn rhif:** | 1 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | PDAA<br>Bwrdd Academaidd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 09.11.22 | **Rhif munud:** | 22.036 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Tach 22 |
| **Cyfnod Cymeradwyo:** | 3 mlynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Tach 25 |
| Asesiad cydraddoldeb wedi ei gario allan i helpu i ddiogleu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. | | | x |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn (dileer fel y bo'n briodol ) ar y Gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Brifysgol. | | | x |

**Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg**

## Pwrpas allweddol y Strategaeth

Pwrpas allweddol y strategaeth yma yw cynyddu a gwella darpariaeth academaidd a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Wrecsam. Byddwn yn mynd i'r afael ar y cyd â staff, myfyrwyr a chyrff nad ydynt yn brifysgolion sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, a chyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel partner allweddol. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar yr egwyddorion bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal[1] a'n bod wedi ymrwymo i greu diwylliant dwyieithog ymhlith ein staff a'n myfyrwyr a chynnig cyfleoedd i lwyddo drwy'r Gymraeg.

## Aliniad i Strategaeth &Gweledigaeth Prifysgol Wrecsam a Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (SSSLA) a Strategaethau Ategol eraill.

[1] Gweithredu ar egwyddor graidd Mesurau'r Gymraeg 2011, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, gan roi statws a dilysrwydd cyfartal i'r ddwy iaith https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd yn uniongyrchol â Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol, gan ganolbwyntio ar:

**Addysgu sy'n Ysbrydoli:**
Galluogi dysgu ysbrydoledig trwy addysgu rhagorol, gan ddarparu cyfleoedd i'n myfyrwyr ffynnu fel dinasyddion byd-eang iach , gweithgar a chyfrifol. Mae'n rhaid i ddarpariaeth addysgu o'r fath gynnwys addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg, a bydd y strategaeth cyfrwng Cymraeg hon yn cefnogi'r SSSLA yn uniongyrchol i wella'r ddarpariaeth academaidd ym Mhrifysgol Wrecsam.

**Strwythur sy'n Cynnal:**
Darparu gwasanaethu a seilwaith gweithredu sy'n cefnogi pob rhan o'r strategaeth; darparu rhagoriaeth drwy bobl, lleoedd ac adnoddau. Bydd y strategaeth hon yn cryfhau ac yn cefnogi'r seilwaith academaidd a phroffesiynol i alluogi gwell darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Cyflwyniad a Chyd-destun**

Mae'r Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg a'r cynllun gweithredu wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion myfyrwyr a staff Cymraeg Prifysgol Wrecsam a galw cynyddol am ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog yn y sector Addysg Uwch.

Rydym yn cydnabod bod diffyg wedi bod yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis dilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym wedi gweld y niferoedd yn disgyn yn sgil y pandemig. Mae Cynllun Academaidd Addysg Uwch newydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyfleoedd pellach i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweithredir hyn drwy gynnig dewis ehangach o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, cyfleoedd astudio i'w datblygu y tu hwnt i ddarpariaeth israddedig draddodiadol, e.e. astudiaethau ôl-raddedig a lefel sylfaen. Nod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw cynyddu niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn cydnabod, oherwydd y pandemig, bod profiadau dysgu newydd wedi datblygu a chyfleoedd i gydweithio gan ddefnyddio technoleg. Mae'r newidiadau diweddar hyn yn mynd law yn llaw ag egwyddorion y Fframwaith Dysgu Gweithredol (**ALF**) ym Mhrifysgol Wrecsam lle mae ei hegwyddorion yn gorwedd mewn sicrhau'r hyblygrwydd gorau posibl ym mhob agwedd ar addysgu, dysgu ac asesu a chynnig cyfle i fyfyrwyr a staff gydweithio mewn amgylchedd pedagogaidd dwyieithog hybrid.

## Ffactorau allanol

**Mae Prifysgol Wrecsam yn mabwysiadu'r egwyddorion sy'n sail i waith y canlynol:**

1. Comisiynydd y Gymraeg

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i Safonau'r iaith Gymraeg, a ddaeth i rym yn 2017.[2] Mae'r safonau hyn yn galluogi datblygiad sylweddol yn narpariaeth gwasanaethau wyneb-yn-wyneb blaen-tŷ a gohebiaeth yn ogystal â hawliau staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i dderbyn gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

2. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol/Y Ganolfan Ddysgu Gymraeg Genedlaethol

Dros y blynyddoedd mae Prifysgol Wrecsam wedi cynnal perthynas a phartneriaeth ragorol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Ddysgu Gymraeg Genedlaethol. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu darpariaeth a chyfleoedd hyfforddi i'n staff a'n myfyrwyr. Disgwylir i'r partneriaethau hyn gryfhau dros y tair blynedd nesaf wrth i ddarpariaeth a chyfleoedd gynyddu ar draws y Brifysgol.

3. Llywodraeth Cymru

Dywedodd Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2022 y byddai pecyn o £46 miliwn ar gael i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg ôl-16 yng Nghymru drwy'r rhaglen Adfywio a Diwygio sy'n canolbwyntio ar alluogi myfyrwyr Cymru i gyrraedd eu potensial. Trwy hefyd fynd i'r afael â thargedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru[3] a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015)[4]

## Blaenoriaethau

1. Adolygu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a nodi meysydd blaenoriaeth i'w datblygu a'u cefnogi.
2. Cynyddu nifer y cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr astudio drwy'r Gymraeg ac amddiffyn yr hawl i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
3. Gwella'r gefnogaeth a'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i staff a myfyrwyr yn eu haddysgu a'u dysgu a chreu amgylchedd dysgu sy'n cydnabod ac yn annog cymuned academaidd ddwyieithog.

---

[2] https://wrexham.ac.uk/media/marketing/policies-and-documents/management/Cydymffurfio-a-Safonaur-Gymraeg-Canllawiau-Pryderon-a-Chwynion.pdf

[3] Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr, Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/

4. Creu graddedigion dwyieithog hyderus sy’n gallu gweithio’n broffesiynol trwy gyfrwng y ddwy iaith a helpu i greu gweithlu dwyieithog a chodi ymwybyddiaeth yr iaith i fyfyrwyr di-Gymraeg.
5. Gwella amlygrwydd a chyfraniad Prifysgol Wrecsam i'r agenda cenedlaethol o gynyddu darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg.

**Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg**

| **Cam Gweithredu (Yn unol â'r strategaeth uchod)** | **Gweithredoedd Gweithredol** | **<u>Pwy sy'n arwain</u> a chyfranwyr ychwanegol** | **Mesurau i'w defnyddio** | **Targedau blynyddol ar gyfer camau gweithredu** | **Comment** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adolygu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a nodi meysydd blaenoriaeth i'w datblygu a'u cefnogi.** | 1.1 Adolygiad blynyddol o ddarpariaeth o gyfleoedd Cymraeg i'w gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd.<br>1.2 Adolygiad blynyddol o ddarpariaeth a chyfleoedd Cymraeg i'w gyflwyno i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>1.3 Ymgorffori adolygiad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhaglenni newydd trwy ddigwyddiadau SHAPE, CREATE a digwyddiadau dilysu. | <u>Pennaeth Darpariaeth Academaidd Cymraeg</u><br><u>Pennaeth Strategol</u><br><u>Adran Ansawdd</u> | Cymryd rhan ym mwrdd academiadd Prifysgol Wrecsam.<br>Cymryd rhan ym mwrdd Academaidd y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol.*<br>Cymryd rhan yn nigwyddiadau SHAPE, CREATE a dilysu. | Cwblhawyd adolygiad a chynhyrchwyd adroddiad ar gyfer y Bwrdd Academaidd.<br>Cwblhawyd adolygiad a chynhyrchwyd adroddiad ar gyfer Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.<br>Data ar gredydau cyfrwng Cymraeg i'w brosesu ganol Gorffennaf. | |

| **Cam Gweithredu (Yn unol â'r strategaeth uchod)** | **Gweithredoedd Gweithredol** | **Pwy sy'n arwain a chyfranwyr ychwanegol** | **Mesurau i'w defnyddio** | **Targedau blynyddol ar gyfer camau gweithredu** | **Comment** |
|---|---|---|---|---|---|
| **2. Cynyddu nifer y cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr astudio drwy'r Gymraeg ac amddiffyn yr hawl i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.** | 2.1 Datblygu cyfleoedd newydd i gynnig credydau mewn darpariaeth Cymraeg.<br>2.2 Datblygu darpariaeth Gymraeg newydd â chredyd a di-gredyd i gyd-fynd â'r cwricwlwm a'i ategu.<br>2.3 Hyrwyddo cyfleon i fyfyrwyr.<br>2.4 Hyrwyddo cyfleon i ddarpar fyfyrwyr. | Pennaeth Darpariaeth Academaidd Cymraeg.<br>Deoniaid a Deoniaiad Cyswllt y cyfadrannau. | Sefydlu llwybrau newydd megis modiwlau Cymraeg yn y Gweithle a hyd at 20 credyd mewn nifer dethol o raglenni erbyn 2023.<br><br>Gweithio gydag academyddion i ddatblygu fersiynau Cymraeg o fodiwlau o fewn rhaglenni gradd a defnyddio darpariaeth ac adnoddau ddysgu cydweithredol i gynyddu'r ddarpariaeth yn fewnol. | 10 @ 20 credyd.<br><br>Rhaglenni gradd megis y Gyfraith, Therapi Galwedigaethol a Therapi iaith a Lleferydd i ddatblygu darpariaeth 40 credyd erbyn 2023.<br><br>Cyflwyniad i'r Gymraeg – cyfleoedd a darpariaeth i gymryd lle yn ystod yr wythnos groeso. Staff ar raglenni i weithio | |

| Cam Gweithredu (Yn unol â'r strategaeth uchod) | Gweithredoedd Gweithredol | Pwy sy'n arwain a chyfranwyr ychwanegol | Mesurau i'w defnyddio | Targedau blynyddol ar gyfer camau gweithredu | Comment |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio. | Hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg i'n myfyrwyr presennol drwy hyrwyddo llwybrau Cymraeg yn y Gweithle, cyrsiau byr anwytho ar Moodle, Tystysgrif Sgiliau iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a phencampwyr iaith o fewn rhaglenni i ledaenu gwybodaeth am y Gymraeg ar ddechrau'r flwyddyn.<br><br>Cefnogaeth i'r Gymraeg ym mhob Diwrnod Agored a noson agored ddwyieithog bwrpasol i'w chynnal. Presenoldeb Prifysgol Wrecsam yn | fel pencampwyr iaith o fewn rhaglenni penodol.<br><br>Noson Agored ddwyieithog a phresenoldeb Prifysgol Wrecsam yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol. | |

| **Cam Gweithredu (Yn unol â'r strategaeth uchod)** | **Gweithredoedd Gweithredol** | **<u>Pwy sy'n arwain</u> a chyfranwyr ychwanegol** | **Mesurau i'w defnyddio** | **Targedau blynyddol ar gyfer camau gweithredu** | **Comment** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. | | |
| **Gwella'r gefnogaeth a'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i staff a myfyrwyr yn eu haddysgu a'u dysgu a chreu amgylchedd dysgu sy'n cydnabod ac yn annog cymuned academaidd ddwyieithog.** | 2.5 Cynyddu cyfleoedd i staff a myfyrwyr ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg.<br>2.6 Datblygu adnoddau hygyrch i fyfyrwyr o ddeunyddiau dysgu Cymraeg.<br>2.7 Darparu mecanweithiau i alluogi cymorth i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>2.8 Sefydlu cangen fywiog o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn PGW. | <u>Pennaeth Darpariaeth Academaidd Cymraeg.</u><br><br><u>Adran Cefnogaeth Myfyrwyr.</u> | Datblygu modiwlau a gweithgareddau dysgu Cymraeg ar gyfer myfyrwyr a staff, megis modiwlau Cymraeg yn y Gweithle, cymwysterau Cymraeg Gwaith a chynnal boreau Coffi a Chlonc. Y Gymraeg i'w chynnwys yn y broses anwytho staff newydd.<br><br>Adnoddau iaith Gymraeg i'w bwydo i mewn i adran gyllideb y Ffurflen Cynnig Rhaglen Gychwynol (IPPF) ar gyfer yr holl raglenni | 15 aelod o staff i ddilyn Cymraeg Gwaith.<br><br>Pob aelod o staff newydd i gael ei gyflwyno i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod anwytho.<br><br>Bydd adnoddau ar gael ar mewn 25% o raglenni erbyn 2023.<br><br>Gall 100% o fyfyrwyr dderbyn | |

| **Cam Gweithredu**<br>**(Yn unol â'r strategaeth uchod)** | **Gweithredoedd Gweithredol** | **<u>Pwy sy'n arwain</u> a chyfranwyr ychwanegol** | **Mesurau i'w defnyddio** | **Targedau blynyddol ar gyfer camau gweithredu** | **Comment** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ar gyfer datblygu deunyddiau dwyieithog i academyddion.<br><br>Darparu tiwtoriaid personol i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith a datblygu cyfleoedd cwnsela i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>4 cyfarfod Cangen i'w cynnal yn flynyddol. | tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Rhaglen a dyddiadau 2022/2023 mewn lle. | |
| **3. Creu graddedigion dwyieithog hyderus sy'n gallu gweithio'n broffesiynol trwy gyfrwng y ddwy iaith a helpu i greu gweithlu dwyieithog a chodi ymwybyddiaeth yr** | 3.1 Darparu modiwlau ar weithio yng Nghymru ac ar gyflogadwyedd drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Cyfleoedd o fewn rhaglenni astudio i fyfyrwyr gyflwyno a thrafod trwy | <u>Pennaeth Darpariaeth Academaidd Cymraeg.</u><br><br><u>Tiwtoriaid sesiynol ar gyfer Cymraeg yn y Gweithle</u> | Hyrwyddo modiwlau Cymraeg yn y Gweithle mewn sgyrsiau anwytho a chwrs byr Moodle. Hyrwyddo Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol | 20 myfyriwr ar fodiwlau Cymraeg yn y Gweithle.<br><br>15 o staff ar gymhwyster Cymraeg Gwaith. | |

| Cam Gweithredu (Yn unol â'r strategaeth uchod) | Gweithredoedd Gweithredol | Pwy sy'n arwain a chyfranwyr ychwanegol | Mesurau i'w defnyddio | Targedau blynyddol ar gyfer camau gweithredu | Comment |
|---|---|---|---|---|---|
| **iaith i fyfyrwyr di-Gymraeg.** | gyfrwng y Gymraeg. | Deoniaid/Deoniaid Cyswllt & Arweinwyr rhaglenni<br><br>Aelodau y tîm Datblygu Academaidd (ADT) Darpariaeth Gymraeg. | Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr chwilio am leoliadau gwaith yng Nghymru mewn lleoliad dwyieithog. | 100% o fyfyrwyr yn medru gwneud cais am leoliad/brofiad gwaith yn y Gymraeg. | |
| **5. Gwella amlygrwydd a chyfraniad Prifysgol Wrecsam i'r agenda cenedlaethol o gynyddu darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg.** | 3.2 Cynrychiolaeth o PGW ar baneli pwnc Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.<br>3.3 Cynrychiolaeth o PGW ar Fwrdd Academaidd Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>3.4 Cyfrannu'n weithredol at bolisïau a strategaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. | Arweinyddion Rhaglen<br><br>Aelodau Darpariaeth Gymraeg y Tîm Datblygu Academaidd (ADT)<br><br>Pennaeth Darpariaeth | Presenoldeb arweinwyr rhaglen Prifysgol Wrecsam a darlithwyr ar baneli pwnc penodol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.<br><br>Pennaeth Darpariaeth Academaidd Cymraeg PGW i barhau ag aelodaeth ar Fwrdd | Cyfranogiad gan staff ar o leiaf 3 baneli pwnc y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.<br><br>Presenoldeb o 80% ar Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. | |

| **Cam Gweithredu (Yn unol â'r strategaeth uchod)** | **Gweithredoedd Gweithredol** | **<u>Pwy sy'n arwain</u> a chyfranwyr ychwanegol** | **Mesurau i'w defnyddio** | **Targedau blynyddol ar gyfer camau gweithredu** | **Comment** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | <u>Academaidd Cymraeg</u> | Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.<br><br>Pennaeth Darpariaeth Academaidd Cymraeg PGW i barhau yn aelod o ar Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac i barhau i gyfrannu at ddogfennau ymgynghori. | Ymateb o 100% ddogfennau ymgynghori. | |